Papur 2 - papur i'w nodi

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/LG/1845/17

Marc Wyn Jones
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

23 Mai 2017

Annwyl Mr Jones

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Mai sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am y cynigion ynghylch difa moch daear

Rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau yn y drefn y gwnaethoch eu gofyn fel a ganlyn:

- Pryd bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu?

  Mae'r arolygon gwreiddiol ar weithgarwch moch daear eisoes wedi dechrau ar sawl fferm. Rhagwelir y bydd y gwaith dal a phrofi yn dechrau yn nes ymlaen eleni.

- Pa sefydliad fydd yn gwerthuso a monitro'r gweithgarwch?

  Caiff yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ei chomisiynu i fonitro'r effaith ar wartheg a moch daear.

- Pwy fydd yn gyfrifol am ddifa'r moch daear – ffermwyr neu filfeddygon?

  Bydd y gwaith maes, gan gynnwys lladd y moch daear mewn ffordd heb greulondeb yn cael ei wneud gan staff y Llywodraeth.

- Pa ddulliau difa sydd wedi eu cymeradwyo neu sy'n cael eu hargymell?

  Bydd milfeddygon y Llywodraeth yn lladd y moch daear sydd â TB mewn ffordd heb greulondeb gan ddefnyddio chwistrelliad i'r wythïen tra bo'r moch daear o dan anesthetig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Sut y bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu mewn ffermydd?

  Nid yw polisi dal moch daear yn lleol a difa'r rheini sydd â TB wedi'u weithredu o'r blaen ac rydym yn gofyn am gyfarwyddyd gan yr Asiantaeth ynghylch pa mor hir y dylid eu dal, a oes angen ailadrodd y broses ac os felly, pa mor aml y dylid cynnal y broses honno.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs